Her Tîm Rheolaeth Cymru 2003

Cyngor Rheolaeth Cymru

Wales Management Council

Cynnwys

Cyflwyniad - Her i Roi Prawf ar eich Safon 1

Ceisio Rhagoriaeth – Cenhadaeth Cyngor Rheolaeth Cymru 2

Cadw Busnes ar y "Trac" Cywir 3

Rhoi Dawn ar Brawf – Creu Her Deilwng 3/4

Cipolwg ar yr Her 5

Cnwd Helaeth o Weithredwyr Medrus - NFU 6

Cyflawni Canlyniadau – Heddlu Dyfed Powys 7

Rheoli'r Awyr Agored – Canolfan Gweithgareddau Mount Severn 8

Cydweithio i Sicrhau'r Effaith Fwyaf Posibl 9

Myfyrdod ar Ddiwrnod Llawn Her 10

Dros y Glwyd Gyntaf – Rhagbrofion 11

Y Rhai a Lwyddodd i Gyrraedd y Rownd Derfynol 12

Noddwyd gan

DYSGU ac ADDYSGU CYMRU ELWa EDUCATION and LEARNING WALES

The Western Mail

Trefnwyd gan

Trac

© Cyngor Rheolaeth Cymru 2003

Cyngor Rheolaeth Cymru, Blwch Post 61, Caerdydd CF24 5YE

Ffôn: 029 2045 0224 Rhif Ffacs: 029 2045 0231

I gael mwy o wybodaeth am waith Cyngor Rheolaeth Cymru, piciwch i mewn i'n gwefan www.crc-wmc.org.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Her i Roi Prawf ar eich Safon

Cynnyrch meddwl Cyngor Rheolaeth Cymru a Trac, adran hyfforddi asiantaeth fenter Antur Teifi, yw Her Tîm Rheolaeth Cymru, sydd bellach ar ei hail flwyddyn.

Nod yr Her yw rhoi cyfle i dimau o reolwyr uchelgeisiol, bywiog a chreadigol ddangos pa mor dda ydynt wrth gystadlu â'u cyfoedion o ledled y wlad.

Yn ogystal â hyn, cafodd ei chynllunio i roi cyhoeddusrwydd i ragoriaeth, ac i ddarparu achlysur i'r rheiny sy'n credu bod ansawdd rheolwyr ac arweinwyr pob sector yn allweddol i ffyniant Cymru yn y dyfodol ddod at ei gilydd.

Mae'r achlysur yn gyfle i reolwyr sydd ag egni a gallu ddangos eu gwaith, ac hefyd mae'n addysg ynddo'i hun. Bydd ugeiniau o reolwyr yn ennill gwybodaeth fewnol werthfawr am eu priodoleddau eu hunain a'u cydweithwyr yn sgîl yr ymarfer blynyddol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd unigolion a thimau yn dychwelyd i'w gwaith â syniadau newydd ac yn awyddus i newid pethau er gwell.

Unwaith eto, mae prif sefydliad dysgu ôl-16 Cymru, Y Cyngor Cenedlaethol – ELWa a phapur newydd cenedlaethol Cymru, y Western Mail, yn cefnogi'r her bwysig, a gynhelir ar Faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.

Mae adeiladu sgiliau rheoli ac arwain o'r ansawdd gorau ledled Cymru yn rhan allweddol o Strategaeth a Chynllun Corfforaethol ELWa ar gyfer y degawd nesaf, tra bo'r Western Mail yn gyson yn dwyn sylw at lwyddiannau busnesau gorau Cymru er mwyn hybu gwell perfformiad gan reolwyr.

Trwy weithio â'r rhain a phartneriaid eraill, bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn parhau i gyhoeddi gwell rheolwyr ac arweinwyr. Yn anad dim byddwn yn annog cyrff sy'n rhannu'r un delfrydau i adeiladu ar lwyddiant menter flynyddol Her Tîm Rheolaeth Cymru hyd yma.

Ceisio Rhagoriaeth

Corff y mae cyflogwyr yn ei arwain yw Cyngor Rheolaeth Cymru, sy'n trefnu Her Tîm Rheolaeth Cymru, a'i genhadaeth yw helpu rheolwyr yng Nghymru i arwain a rheoli mewn modd llwyddiannus.

Wrth i'r galw ar ein rheolwyr cynyddu, mae'n rhaid i sefydliadau wneud yn siŵr bod eu gweithredwyr yn ddigon medrus wrth reoli ac arwain i allu cystadlu ar y lefel uchaf.

Dywedodd y Cadeirydd Ian Rees "Ein gweledigaeth yw gwlad lle y mae rheolwyr pob sector yn ddigon uchelgeisiol, ac yn ddigon galluog, i greu a chynnal busnesau a sefydliadau sydd ymhlith y gorau yn y DU.

"Rydym yn bodoli oherwydd y bydd ansawdd rheolwyr ac arweinwyr Cymru yn effeithio yn uniongyrchol ar ein twf, ein cynhyrchiant a'n perfformiad yn y dyfodol."

Nod Cyngor Rheolaeth Cymru yw defnyddio cyfathrebu cyson sydd wedi'i dargedu yn dda i helpu i newid agweddau a chynyddu'r ymwybyddiaeth o angen Cymru i ddatblygu ei rheolwyr i'w potensial llawn.

Ychwanegodd Mr Rees: "Ein nod yw defnyddio'r strategaeth newydd ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth i gyflawni hyn, gan weithio gyda'r holl asiantaethau cyhoeddus perthnasol, sefydliadau busnes a'r rheolwyr eu hunain."

Mae Cyngor Rheolaeth Cymru wedi arwain datblygiad strategaeth a chynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer datblygu rheolwyr ac arweinwyr. Wrth hybu'r strategaeth hon, bydd y Cyngor yn cydweithio yn agos â phartneriaid fel y Cyngor Cenedlaethol – ELWa, y WDA a chyrff sy'n cynrychioli busnesau, a rheolwyr eu hunain.

Nod strategaeth Cyngor Rheolaeth Cymru yw:

- Argyhoeddi pob rheolwr o'r manteision ddaw yn sgîl datblygu eu sgiliau a'u galluoedd
- Ymchwilio yn drylwyr i nodi gwir anghenion datblygu rheolwyr Cymru
- Gwneud yn siŵr bod rheolwyr yn gallu sicrhau hyfforddiant a datblygiad hyblyg, o safon uchel
- Rhannu arfer gorau rheolwyr y DU a rheolwyr rhyngwladol â holl fusnesau Cymru
- Mesur cynnydd o'i gymharu â meincnodau credadwy

Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bennaf sy'n ariannu Cyngor Rheolaeth Cymru, ac mae rhai o bobl flaenllaw yn sectorau cyhoeddus a phreifat y wlad yn aelodau o'r cyngor.

Cadw Busnes ar y "Trac" Cywir

Trac, sef adran hyfforddi asiantaeth fenter Antur Teifi, yw Partner y Cyngor yn Her arloesol Tîm Rheolaeth Cymru.

Mae Trac yn darparu gwasanaethau hyfforddi a datblygu ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint ledled Cymru. Mae'n darparu ei gwasanaethau trwy'r Saesneg, y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Mae'r corff yn cefnogi busnesau ymhob sector ac yn ymwneud â phrosiectau sydd wedi derbyn nawdd Ewropeaidd i gynorthwyo diwydiannau penodol yng nghefn gwlad Cymru, fel twristiaeth.

Mae cyngor a chefnogaeth Trac ar gael yn fasnachol ym mhob rhan o Gymru, ac mae arian cyhoeddus ar gael yng Ngheredigion ac yn Sir Gaerfyrddin i dalu am gostau hyn. Bydd cyflogwyr â hyd at 250 aelod o staff yn gymwys i dderbyn yr arian hwn.

Rhoi Dawn ar Brawf - Creu Her Deilwng

Yn ôl trefnwyr yr achlysur, Trac (adran hyfforddi asiantaeth fenter Antur Teifi) a'r dylunwyr, manzoku (cwmni ymgynghori o Aberhonddu, y mae ei enw'n golygu "dysgu perffaith") ni fu'n hawdd creu achlysur fyddai'n rhagori ar her gyntaf lwyddiannus y cwmni y llynedd.

Roedd yr her yn cynnwys cyfres o dasgau arloesol â'r nod o roi mentergarwch, medrau, cryfderau a gwendidau'r timau rheolwyr ar brawf.

Esboniodd Andy Cummings o manzoku: "Credwn yn gryf yng ngrym antur – y dysgu parhaus a ddaw yn sgîl wynebu heriau – a gallu pob un ohonom i ddysgu trwy weithgareddau a chwarae rôl."

Mae'r ymarferion yn gofyn am fwy gan yr unigolion a'r timau na chystadlu yn erbyn ei gilydd yn unig. Er mwyn adlewyrchu sefyllfaoedd busnes go iawn, gosodwyd tasgau hefyd yn gofyn i'r cyfranogwyr nodi lle byddai cydweithrediad rhwng y timau yn cyflawni gwell canlyniadau nag y byddai cystadlu.

Yn ôl Andy: "Mae'r natur ddynol yn pennu ein bod yn cystadlu yn hytrach na'n cydweithio pan fyddwn dan bwysau mawr, felly rydym wedi datblygu'r tasgau yn unol â hyn. Tynnwyd sylw at ymddygiad sylfaenol mewn cyfnod amser gweddol fyr, ac amlygodd hyn wybodaeth am arddull rheoli'r cwmnïau ac arddull y rheolwyr unigol a ddetholwyd ar gyfer rownd derfynol eleni."

Cynlluniwyd elfen gyntaf y gystadleuaeth tair-rhan i roi sgiliau cynllunio y timau a'u gallu i drafod telerau ar brawf. Roedd gofyn i bob tîm ddod o hyd i leoliadau o fewn amser penodol a phennwyd gwerth arian enwol i bob lleoliad. Casglu cymaint o "arian" â phosibl oedd y nod, heb achosi unrhyw gosbau.

Roedd dull y gwahanol dimau o ymdrin â'r ymarfer hwn yn amlygu eu dull o gymryd risgiau a thrafod telerau. Y rhai a oedd yn fodlon cymryd risgiau ac a oedd yn berchen ar sgiliau cryf o ran trafod telerau a oedd yn tueddu i ennill y sgoriau uchaf.

Prosiect "llinell gynhyrchu" oedd yr ail gyfnod, lle roedd timau yn cwblhau nifer fach o dasgau, pob un yn cynnwys symud dŵr. Ni roddwyd llawer o gyfarpar i'r timau a bu'n rhaid iddynt ddefnyddio'u creadigrwydd a'u medrau i ddod o hyd i ateb effeithiol.

Pan roddwyd timau mewn amgylchedd anghyfarwydd, aethant ati i lunio strategaeth ar sail yr hyn yr oedd modd iddynt ei gyflawni yn realistig, a'r hyn nad oedd modd ei gyflawni. Ar ôl cyfnod cychwynnol, ailwerthusodd y rhan fwyaf o dimau eu sefyllfa a newid eu strategaeth yng ngoleuni eu profiadau.

Roedd y timau naill ai'n cydweithio drwy gydol y prosiect neu'n aseinio tasgau penodol i wahanol unigolion yn unol â'u cryfderau.

Roedd y cyfnod olaf yn ymwneud ag ysgrifennu sgript a chynhyrchu hysbyseb fideo i hybu eu sefydliad.

Yn ôl Mr Cummings: "Roedd pobl yn ymateb fel y byddent mewn busnes – trwy ddiffinio'u ffiniau, trwy ddyfeisio a thrafod strategaethau, trwy ddirprwyo cyfrifoldebau a thrwy atgoffa pobl o'u lle.

Roedd y gweithgareddau hyn yn rhoi "ciplun" i reolwyr a'u cydweithwyr o'u priodoleddau o ran trefnu, materion ariannol, arweinyddiaeth, rheoli pobl a gweithio fel rhan o dîm. Roedd pob un o'r cystadleuwyr yn cadw "cofnod dysgu" i gofnodi eu gwybodaeth fewnol a'r ddealltwriaeth newydd roeddynt wedi'i datblygu yn ystod y diwrnod. Cynlluniwyd hwn i fod yn gymorth cof defnyddiol, er mwyn eu helpu i ddefnyddio'r gwersi pwysig hyn yn ôl yn eu gweithle.

Cyflawnwyd canlyniadau syfrdanol trwy herio syniadau rhagdybiedig, ac adroddodd nifer o'r rhai a gymerodd ran eu bod wedi sylweddoli eu bod llawer yn fwy galluog nag yr oeddynt wedi ei feddwl yn flaenorol.

Cipolwg ar yr Her

Denodd Her Rheolaeth Cymru 2003 77 o dimau i ymgeisio o blith y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Roedd hyn yn cynnwys 12 cais o Ogledd Cymru, 12 cais o Ganolbarth Cymru, 23 cais o Dde Ddwyrain Cymru a 29 cais o Dde Orllewin Cymru.

Cafodd ei lansio gyntaf yn 2002 er mwyn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am wella parhaus ym maes rheolaeth yng Nghymru, tra'n annog rheolwyr unigol i roi hwb i'w sgiliau a'u perfformiad.

Lluniodd panel o gynrychiolwyr o Gyngor Rheolaeth Cymru, Trac, manzoku a Calsonic Kansei Europe ccc restr fer o'r ceisiadau cychwynnol a dderbyniwyd ar bapur. Detholwyd deg tîm ar hugain i'r rownd derfynol.

Cafodd enillwyr eleni eu dewis yn ystod achlysur tri chyfnod ar Faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, a oedd yn cwmpasu sgiliau dadansoddi a thrafod telerau, datrys problemau a mentergarwch ac, yn olaf, gweithio ar eich liwt eich hun.

Yn ôl Christopher Ward, Prif Weithredwr Cyngor Rheolaeth Cymru: "Mae pob un o'r rhain yn briodoleddau y mae angen i reolwyr ac arweinwyr modern feddu ar ddigonedd ohonynt, o ystyried yr heriau y maent yn eu hwynebu mewn amgylchedd busnes sy'n fwyfwy gystadleuol.

"Mae hyblygrwydd a'r gallu i ymateb yn effeithiol i bethau annisgwyl yn hanfodol bwysig ymhob sector. Dyma beth yr oedd y gystadleuaeth yn ceisio amlygu, ac roeddem yn falch iawn o'r llwyddiant wrth gyflawni hyn", ychwanegodd.

Cnwd Helaeth o Weithredwyr Medrus - NFU

Daeth perfformwyr gorau yr Her Tîm Rheolaeth eleni o gymuned Amaethyddol Cymru, yn hytrach nag arweinwyr diwydiant.

Llwyddodd tîm penderfynol â phedwar aelod o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) i arddangos cydweithrediad a sgiliau cyfathrebu ardderchog i ennill y teitl eleni.

Mae'r NFU sydd â swyddfeydd yn Abertawe, Llundain a Brwsel, yn gweithio i sicrhau gwell dyfodol ar gyfer ffermwyr Cymru a'r gymuned ehangach yng nghefn gwlad.

Dywedodd cyn Lywydd NFU Cymru Hugh Richards, un o aelodau'r tîm: "Yn naturiol, rydym wrth ein boddau ein bod wedi ennill, a llwyddodd yr Her i'n sicrhau bod ein tîm o reolwyr yn un o ansawdd da iawn.

"Yn aml nid y ffordd hawsaf yw'r ffordd orau, ond mae'n rhaid inni ganolbwyntio yn gyson. Fel ffermwyr, rydym yn dibynnu ar natur. Rydym yn ymwybodol ein bod yn byw yn y byd go iawn, ac mae angen inni allu llunio penderfyniadau ar gyfer y byd go iawn. Mae hyn yn golygu bod angen inni fod cystal â'n cymheiriaid ym myd busnes", ychwanegodd.

Dull tîm yr NFU o ymdrin â'r her oedd dangos bod y priodweddau sy'n gryfderau i rai yn wendidau i eraill. Trwy gyfuno'u cryfderau a'u hadnoddau llwyddasant i greu tîm cytbwys, da a lwyddodd i ennill.

Dywedodd Mr. Richards fod yna alwadau anferth ar fusnes sy'n datblygu. "Er mwyn inni fod yn wlad sy'n llwyddiannus ym maes busnes, mae angen inni ganolbwyntio ar ddatblygu ein hisadeiledd ein hunain heb ddibynnu'n gyson ar fusnes o fannau eraill.

"Wrth ddatblygu cwmnïau Cymru mae angen inni ddatblygu mwy ar sgiliau ein timau o reolwyr. Mae'r Her yn dwyn sylw i raddau helaeth iawn at y cryfderau sy'n bodoli eisoes a'r rhai sylfaenol wrth nodi anghenion hyfforddi yn y dyfodol."

Cyflawni Canlyniadau - Heddlu Dyfed Powys

Cystadlodd Heddlu Dyfed Powys yn Her Tîm Rheolaeth Cymru i roi sgiliau ei Adran Safonau Proffesiynol ar brawf yn ogystal â'u gallu i weithredu fel tîm.

Darganfuodd y tîm sy'n seiliedig yng Nghaerfyrddin fod tasgau'r gystadleuaeth yn berthnasol iawn i'r rhain maent yn dod ar eu traws yn eu gwaith bob dydd.

Yn gyflym daethant i adnabod y pethau oedd yn debyg a llwyddo i addasu cystal i'r gwahanol amgylchedd nes iddynt ddod yn ail yng nghystadleuaeth frwd yr achlysur.

Bu Heddlu Dyfed Powys yn gyfrifol am ostwng nifer y cwynion, a safon uchel arolygon, yn ogystal ag archwiliadau effeithiol a gonestrwydd cyffredinol yn yr Heddlu. Mae'r adran yn ystyried bod moeseg yn hanfodol i lwyddiant y sefydliad.

Dywedodd y Prif Arolygydd Ian John, un o aelodau'r tîm: "Er ein bod o wahanol rengoedd ac na fyddwn yn cydweithio yn agos o ddydd i ddydd, ni chododd unrhyw broblemau o ran awdurdod wrth ymwneud ag unrhyw rai o'r tasgau a roddwyd. Roeddem yn ystyried yr her yn gyfle i roi ein hunain ar brawf yn erbyn meincnod y diwydiant, a gweld pa mor dda yr oeddem yn perfformio."

Yn ystod diwrnod o dasgau corfforol a meddyliol, defnyddiodd Ian a'i gydweithwyr, Alistair Lindsay, Claire John a Garth Richards, eu hamynedd i guro'r cystadleuwyr.

Esboniodd: "Gwnaethom ddibynnu yn helaeth ar ein gallu i berfformio tasgau fel tîm. Mae ein ffordd o feddwl yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau – waeth pa mor fawr neu anorchfygol y mae'r dasg yn ymddangos ar y dechrau. Gwnaethom ddirprwyo'r aelod o'r tîm a oedd â'r datrysiad gorau i'r dasg dan sylw i fod yn arweinydd. Drwy gydol yr achlysur roeddem yn sylweddoli ei bod yn bwysig sicrhau sianeli clir a chryf i gyfathrebu drwyddynt."

Roedd cyfraniad pob aelod yn werthfawr, a chafodd ei asesu yn ofalus er mwyn penderfynu ar y strategaeth orau i fynd ymlaen. Ychwanegodd John, y Prif Arolygydd: "Bydd ein sefydliad yn canolbwyntio ar dasgau, ond ni wnaeth hyn ein rhwystro rhag cael hwyl."

Rheoli'r Awyr Agored -

Canolfan Gweithgareddau Mount Severn

Penderfynodd Canolfan Gweithgareddau Mount Severn gystadlu yn Her Tîm Rheolaeth Cymru er mwyn hogi sgiliau ei dîm o reolwyr-berchnogion, a brynodd y busnes ddwy flynedd a hanner yn ôl.

Mae Simon Hobbs a'i rieni Stuart a Sonia wedi datblygu'r ganolfan yn Llanidloes yn fusnes llwyddiannus sy'n cyflogi 12 o weithwyr amser llawn a rhan amser trwy drefnu'r gweithgareddau yn becynnau clyfar ac ymgyrch farchnata fywiog.

Mae'r ganolfan mewn 14 erw o goedwig ar lannau Afon Hafren, ac mae'n cynnig darpariaeth ar gyfer pawb, o grwpiau o ysgolion a theuluoedd i benwythnosau i grwpiau a gweithgareddau adeiladu tîm corfforaethol. Mae'n denu cleientiaid corfforaethol o ledled y DU.

Defnyddiodd tri aelod y teulu, ynghyd â'u cydweithiwr Tim Griffin, yr hyn yr oeddynt wedi'i ddysgu o'u menter busnes gyffrous i ddod yn drydydd yn Her Tîm Rheolaeth Cymru eleni.

Roedd Simon yn allweddol i lwyddiant y tîm, ac yn frwdfrydig iawn ynghylch gwerth cystadlu yn Her Tîm Rheolaeth Cymru. "Roedd yr Her yn ddefnyddiol mewn nifer o ffyrdd. Yn ystod yr ymarferion, nid oedd digon o amser i bawb ddarllen y brîff, felly roedd yn rhaid i un ohonom ei ddarllen a rhoi cyfarwyddiadau i bawb arall.

"Er ein bod yn canolbwyntio ar adeiladu tîm a hyfforddiant i reolwyr yn y Ganolfan, dysgais i sut i roi cyfarwyddiadau clir a manwl-gywir wrth ymdrin ag aelodau'n tîm. Gallaf fynd â'r sgil hon yn ôl gyda mi a'i throsglwyddo i bobl eraill sy'n ymweld â'r ganolfan."

Cydweithio i sicrhau'r effaith fwyaf posibl - Abacus Team Cymru

Un cwmni a oedd yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar yr her oedd ABACUS Team Cymru o Dde Cymru.

Ymunodd pedwar o fentrau bach: AJ Tensile Fabrications Cyf, Baines Consulting Cyf, Leadership Management (UK) Cyf. a Rubus Associates i gydweithio ar ôl cyfarfod mewn brecwast busnes NGb2b yng Nghasnewydd.

Dywedodd Micheline Baines o Baines Consulting yn Nhyndyrn: "Roeddem am anfon neges gref i fusnesau bychain sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau rheoli a hyfforddi. Y ffaith bod yr her yn darparu hyfforddiant yn rhad ac am ddim, a ddim yn gofyn am lawer o amser y tu allan i'r gweithle, a'n hysbrydolodd fwyaf.

"Mae yna nifer o gyfleoedd mewn busnesau bychain i gydweithio a ffurfio rhwydweithiau cryf o sgiliau sy'n cyflenwi ei gilydd. Roeddem yn gallu cystadlu yn erbyn sefydliadau llawer mwy a sefydlwyd llawer yn gynt na ni trwy gyfuno ein sgiliau tactegol, ymarferol a'n sgiliau trefnu a thrafod telerau."

Dywedodd Mrs Baines bod y grŵp wedi ennill gwybodaeth fewnol werthfawr iawn am eu personoliaethau a'u dulliau o weithredu. "Yn gyffredinol, rydym wedi dysgu bod yn fwy pendant ac yn fwy hyblyg, gan ymdrin â phethau mewn modd mwy disgybledig a defnyddio ein sgiliau fel unigolion er mantais pawb."

Myfyrdod ar Brofiad Dysgu Dwys

Yn ôl y gwerthuso ar ôl yr achlysur, daeth rhywfaint o fuddion go iawn i ran cyfranogwyr yr Her. Mae canlyniadau arolwg o'r cyfranogwyr yn dangos bod 71% ohonynt wedi defnyddio'r technegau y gwnaethant eu dysgu ar y diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd i'w busnesau. Adroddodd mwy na chwech o bob deg eu bod wedi ennill syniadau busnes newydd, a dywedodd naw o bob deg eu bod wedi ennill syniadau newydd ar gyfer datblygu staff. Roedd pawb yn cytuno bod yr achlysur wedi llwyddo fel ymarfer adeiladu tîm da. Yn ôl naw deg y cant roedd yn 'ddefnyddiol' neu'n 'ddefnyddiol iawn', ar gyfer dysgu sgiliau datrys problemau ac yn ôl 95% roedd yr un mor ddefnyddiol yn achos sgiliau cyfathrebu.

"Byddwn i'n wirioneddol argymell yr Her. Mae'n ddiwrnod allan llawn hwyl, sy'n eich caniatáu i roi eich tîm a chi'ch hun ar brawf." **Hugh Richards, Undeb Amaethwyr Cymru (NFU)**

"Roeddem yn ystyried yr her yn gyfle i'n rhoi ein hunain ar brawf yn erbyn meincnod y diwydiant, a gweld pa mor dda yr oeddem yn cymharu". Y berl wybodaeth a gawsom yn sgîl yr achlysur yw y dylech wrando ar eich cydweithwyr, waeth beth fo'u rheng, a dylech werthfawrogi eu barn. Fe fydd eich tîm yn gyfoethocach ac yn well yn sgîl y profiad." **Prif Arolygwr Ian John, Heddlu Dyfed-Powys**

"Roedd yr Her yn ddefnyddiol iawn mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, fe ddysgodd rhywbeth imi ynglŷn â rhoi cyfarwyddiadau mwy clir i aelodau eraill y tîm. Rydym yn falch ein bod wedi cystadlu a byddwn yn sicr yn gwneud eto'r flwyddyn nesaf." **Simon Hobbs, Canolfan Gweithgaredd Mount Severn**

"Roedd pawb ohonom wrth ein bodd â gweithgareddau'r diwrnod a'r hyn a gawsom ohono. Roedd yn hwyl. Mae hi'n werth gwrando, a thrwy wrando ar bobl eraill byddwch yn dysgu mwy amdanoch chi'ch hun." **Micheline Baines, Baines Consulting ar ran tîm Abacus**

"Roedd yn hollol wych. Yn ystod y diwrnod, gwnaethom ddysgu llawer o bethau amdanom ein gilydd, a sylweddoli bod pawb yn meddu ar wahanol sgiliau. **Christine Bissex - BIZ.INC (Adran Fenter Coleg Merthyr)**

"Roedd yn ardderchog. Roedd pawb yn rhannu'r holl waith. Gwelsom mai llunio cynllun a'i roi ar waith yn gyflym oedd yn bwysig, yn hytrach nag aros. Fodd bynnag, cafodd pawb gyfle i ddweud eu dweud ynglŷn â sut y dylid gwneud pethau." **John Fryatt – Uwch Weithiwr Cefnogol – Prestwood (Cartrefi Gofal)**

"Mwynhaodd ein tîm bob eiliad! Gwnaeth pawb fwynhau'r diwrnod, a byddem wrth ein bodd yn cynnal achlysur tebyg i'n staff." **Ysgol Glan-y-Môr**

Dros y Glwyd Gyntaf - Rhagbrofion

Er mwyn ennill lle yn y rownd derfynol, roedd gofyn i'r timau gwblhau rhagbrawf tri chwestiwn. Ysgogodd yr ymarfer nifer o atebion diddorol iawn:

Cwestiynau sampl:

Cwestiwn Un:

Beth yw'r cyngor busnes gorau y gallech ei roi i sefydliadau o'r un maint â chi yn eich diwydiant neu sector?

Un unigolyn yn unig fydd yn cael syniad, ond bydd angen nifer o bobl i wireddu'r syniad a'i drosi'n gynigiad busnes. Cofiwch, y mae'n rhaid i holl rannau jig-so ffitio.

Dylech greu gofod i reolwyr allu meddwl yn strategol yn hytrach nag yn ymatebol. Bydd angen addasu strategaethau da yng ngoleuni amgylchiadau, ond ni fyddant yn cael eu bwrw oddi ar y cledrau.

Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn y mae eich cwsmeriaid presennol a'ch darpar gwsmeriaid yn ei ddweud, ond gwrandewch yn fwy gofalus ar yr hyn y mae cwsmeriaid sydd wedi eich gadael yn ei ddweud.

Cwestiwn Dau:

Beth yw'r ymarfer hyfforddi neu ddatblygu gorau yr ydych wedi ei wneud, a pham?

Dylid datblygu fesul camau hydrin, gan gynnig adborth adeiladol, i ganiatáu i'r dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth yn hyderus mewn bywyd pob dydd.

Mae ein cais i ennill dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl wedi ein galluogi i ddysgu beth yw ein cryfderau a'n gwendidau. Gorfododd yr ymarfer ni i ddatblygu system gyfathrebu â grym sy'n cynnwys pawb, ac mae ysbryd y tîm yn uchel.

Mentora cymheiriaid, arsylwi eraill a rhannu syniadau proffesiynol trwy weithredu yn hytrach na thrwy siarad neu ysgrifennu.

Cwestiwn Tri:

Beth yw'r cyngor gorau y gallech ei roi i'ch sefydliad?

Byddwch yn ddigon dewr i gynnig gweledigaeth ac arloesedd, gwerthfawrogwch staff am eu gwaith heddiw, a'r hyn y byddant yn gallu ei gynnig yfory. Dylech gyflawni rhagoriaeth.

Dylem fod yn ddigon hyderus i fabwysiadu syniadau newydd heb orfod ymddiheuro. Ni ddylem gyfiawnhau newid trwy feirniadu'r gorffennol.

Ni ddylid aberthu nodau tymor hir eich sefydliad i gael manteision tymor byr, oherwydd dyma'r rheswm dros y rhan fwyaf o fethiannau ym myd busnes.

Y Rhai a Lwyddodd i Gyrraedd Rownd Derfynol Her Tîm Rheolaeth Cymru 2003

ABACUS Team Cymru (Tyndyrn)

Abba Print Group (Y Groes-faen, Caerdydd)

Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth

Atkins Management Consultants (Casnewydd)

BIZ.INC (Merthyr Tudful)

Celtica (Machynlleth)

Cere Care Cyf (Llanbedr Pont Steffan)

Croeso-Welcome Bangor

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (Abertawe)

Heddlu Dyfed Powys

Ysgol Dyffryn Taf (Hendy-gwyn)

Ysgol Glan-y-Môr (Y Tywyn Bach, Sir Gaerfyrddin)

Canolfan Fusnes Calon Cymru (Llandrindod)

Integrity Group Cyf (Caerdydd)

I-SA Assessment & Training Cyf (Pen-y-bont ar Ogwr)

LBS Cyf (Llandeilo, Sir Gaerfyrddin)

Canolfan Byd Gwaith Llandeilo

Mentrau Iaith Myrddin (Sir Gaerfyrddin)

Mid Wales Housing Association Cyf (Y Drenewydd)

Canolfan Gweithgaredd Mount Severn (Llanidloes, Powys)

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Sanclêr, Caerfyrddin)

Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru

Prestwood Residential Homes Cyf (Bae Colwyn)

Tai'r Sector Preifat – Cyngor Sir Caerdydd

Scott Tod Developments (Crucywel, Powys)

Stephens & George Cyfyngedig (Merthyr Tudful)

The Complete Hospitality Company Cyf (Abertawe)

Coleg y Drindod Caerfyrddin

Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn (Llithfaen, Gwynedd)